# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cofnodion (SJR(2)-01-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 25 Ionawr 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Laura Anne Jones | Dwyrain De Cymru |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Kathryn Potter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Denise Rogers | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Steve Boyce | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yw'n berthnasol) | Eitem(au) |
|---|---|---|
| Joy Kent | Cymorth Cymru | 7 |
| Frances Beecher | Llamau | 7 |
| Kate Connelly | Solas | 7 |
| Libby Jones | New Pathways | 8 |
| Ley Emanuel | New Pathways | 8 |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Papurau: SJR(2)-01-06 (min)

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2006

### Eitem 3: Adolygiad Polisi: Camddefnyddio Sylweddau - Ystyried yr adroddiad terfynol

Papur: SJR(2)-02-06(p.1) Atodiad

Nodwyd yr Adroddiad yn amodol ar nifer o awgrymiadau

Cam i'w gymryd

Gwasanaeth y Pwyllgor i ddiwygio'r Adroddiad a'i ddosbarthu i Aelodau gyflwyno sylwadau arno

### Eitem 4: Adolygiad Polisi

Papur: SJR(2)-02-06(p.2) Atodiad

Nododd yr Aelodau y papur. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cynnal adolygiad o sut i atal pobl rhag camddefnyddio sylweddau ac y byddai'n adrodd yn ôl ar hyn ym mis Mehefin. Yn dilyn hyn, cytunodd y Pwyllgor i gynnal adolygiad o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc.

### Eitem 5: Masnachu mewn Pobl

Papur: SJR(2)-02-06(p.3) Atodiad

Cytunodd Aelodau i ohirio'r eitem hon tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 2 Mawrth.

Cam i'w gymryd

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ddarparu papur cefndir ar y ddogfen ymgynghori

### Eitem 6: Y Comisiwn Ewropeaidd

Papur: SJR(2)-02-06(p.4) Atodiad A, B, C

Nododd yr Aelodau'r papur a chytunwyd i ystyried y pynciau a nodwyd os bydd amser. Gofynnodd yr Aelodau am bapurau cefndir gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gael eu paratoi ar y meysydd a nodwyd hefyd.

Camau i'w cymryd

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ddarparu papur ar y ffyrdd y gallant ddylanwadu ar bolisi yn Ewrop, eu pwerau mewn cysylltiad ag Ewrop a sut y mae hyn yn debygol o newid ar ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru ddod i rym

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ddarparu papurau cefndir ar wasanaethau post a hawliau'r plentyn.

### Eitem 7: Cyflwyniadau gan Cymorth Cymru, Llamau, Solas

Papur: SJR(2)-02-06(p.5)

Croesawodd y Cadeirydd Joy Kent, Francis Beecher a Kate Connelly. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar waith Solas a'r prosiect Cyfryngu a reolir gan Llamau fel rhan o'u cyfraniad at waith tai â chymorth i atal digartrefedd a digartrefedd sy'n ail-ddigwydd.

## Eitem 8: Cyflwyniad gan y Prosiect New Pathways

Papur: SJR(2)-02-06(p.6)

Croesawodd y Cadeirydd Libby Jones a Ley Emanuel o New Pathways. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar waith New Pathways gyda phobl sydd wedi dioddef trais ac sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.